

## Ar y We Gwefan yr Ofalaeth

Cofiwch fod gan yr Ofalaeth wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am yr eglwysi a'u gwaith. Mae copi o *Gronyn* yn cael ei osod ar y wefan bob nos Sul, ac felly os na chawsoch gopi yn y capel am unrhyw reswm mae modd ei ddarllen ar y wefan. Yn syml iawn, chwiliwch am [gronyn.org](http://gronyn.org)

### Facebook

Mae gan yr Ofalaeth hefyd dudalennau Facebook sy'n rhoi gwybodaeth am eu gwaith.

Dyma fanylion y tudalennau a grewyd hyd yma.

Capel Coch: **Capel Coch Llanberis**

Carmel: **Capel Carmel, Llanllechid**

Bethlehem: **Capel Bethlehem, Talybont**

### Gwefan Efe

Cofiwch fod gan Gynllun Efe wefan a thudalen Facebook hefyd i roi gwybod i bobl am ei waith.

Chwiliwch am [cynllunefe.org](http://cynllunefe.org)

Ac ar Facebook yn naturiol iawn ewch i dudalen **Cynllun Efe**.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Tachwedd 5

3.30 p.m. - Y Gweinidog

#### Tachwedd 12

5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

#### Tachwedd 19

5.00 p.m. - Y Gweinidog

## Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Tach. 12:** Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Miss Nerys Jackson, Caernarfon.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Fawrth, Tachwedd 7:** Cymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch – 'Crefftai'r Nadolig' gyda Mrs Pat Jones, Brynrefail.  
**Nos Wener, Tachwedd 10:** CIC am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Tach. 12:** Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

### CARMEL

**Dydd Llun, Tachwedd 6:** Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Tachwedd 10:** Cynhelir Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Tach. 12:** Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch; oedfa am 5.00 o'r gloch.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Tachwedd 12:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Tach. 12:** Ni fydd oedfa.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Tachwedd 5

10.00 a.m. - Y Parchg Megan Williams  
5.00 p.m. - Y Parchg Huw Pritchard

#### Tachwedd 12

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Tachwedd 19

10.00 a.m. - Mr Corey Hampton  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Eifion Williams.



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 747: 05 Tachwedd, 2017

## Cwestiynau

Yr un hen gwestiynau. Sut allwn wneud y capel yn fwy perthnasol? Sut allwn ymestyn at y bobl o'n cwmpas? Sut allwn agor drysau'r capel yn ystod yr wythnos? Y math o gwestiynau a glywyd ers blynyddoedd a glywais y Sul diwethaf eto. Cwestiynau digon tebyg y mae Cristnogion yn eu gofyn yn Yr Alban ag yng Nghymru, mae'n amlwg. Be fedrwn ei wneud i ddenu pobl? Sut fedrwn ni wneud y capel yn ganolog i fywyd ein cymdogaeth?

Yr un cwestiynau. Ac mae'n bosibl eu bod hefyd yn cael eu gofyn yn yr un ffordd mewn sawl lle yn y wlad honno. Ond nid felly yng Nghapel Charlotte, Caeredin. Oherwydd nid o wendid y gofynnid y cwestiynau hyn yno, ond o gryfder. Cwta ddeunaw mis sydd ers i'r eglwys symud i'w chartref newydd. Gwerthwyd y capel y bu'r eglwys yn addoli ynddo ers canrif er mwyn prynu ac adnewyddu capel enfawr ar un o strydoedd prysuraf y ddinas. Costiodd hyn dair miliwn a hanner o bunnoedd. Roedd y capel hwn yn orlawn fore Sul. Wn i ddim faint oedd yno; ymhell dros bum cant, ac o bosibl dros chwech a saith gant. Dim ond rhyw ddau gant oedd yn oedfa'r hwy! Roedd gan yr eglwys 14 o wahanol weithgareddau yn ystod yr wythnos, a thim pêl droed a oedd yn ymarfer ar nos Lun ac yn chwarae yng Nghynghair Eglwys Caeredin ar fore Sadwrn.

Hawdd fyddai i ymwelwyr fel ni dybio bod popeth yn dda yn yr eglwys hon ac nad oedd angen i'w haelodau ofyn y

math o gwestiynau a ofynnwn ni mor aml. Onid eglwys gwannach o lawer sy'n gorfod meddwl am ffyrdd i ddenu pobl? Ond mynnu eu gofyn a wna hon hefyd. Ac mae'n debyg mai oherwydd ei bod yn eu gofyn yr oedd aelodau'r eglwys yn gosod bwrdd ar y palmant o flaen y capel cyn y ddwy oedfa er mwyn cynnig paned am ddim i bawb a âi heibio. Dyna hefyd pam y bwriedir agor y capel am ddwy awr ganol dydd deirgwaith yr wythnos er mwyn i bobl ddiethr fedru dod i mewn heb fod dan bwysau i fynychu oedfa neu gyfarfod ffurfiol. A dyna pam y bwriedir cynnal ambell i gyfarfod amser cinio ar gyfer pobl sydd, am ba reswm bynnag, yn methu dod i oedfa ar y Sul.

Mae byd o wahaniaeth rhwng Capel Charlotte a chapel i'r Ofalaeth hon a mwyafrif capeli Cymru. Nid mewn prifddinas boblog, gosmopolitan a chyfoethog yr ydym ni. Ac nid mewn capeli llawn yr addolwn. Ond yr ofn sydd gennyf yw mai'r prif wahaniaeth yw ein bod ni, ers gormod o amser o lawer, wedi gofyn y cwestiynau hyn er mwyn y capel, er mwyn llwyddiant a dyfodol yr Achos, a hyd yn oed er ein mwyn ein hunain, tra bo'r eglwys yng Nghapel Charlotte yn eu gofyn er mwyn yr Efengyl ac er mwyn Iesu Grist ei hun. Y dyhead i weld pobl yn dod i gredu yng Nghrist ac i brofi'r bywyd newydd drwyddo sy'n gwneud i bobl ymestyn allan at eraill er bod ganddynt gapel llawn a rhaglen lawn o weithgareddau. Gwae ni os yw ein capeli'n bodoli er eu mwyn eu hunain.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnysaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn (A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm



'Daethost â gwinwydden o'r Aifft; gyrraist allan genhedloedd er mwyn ei phlannu; **BEIBL BYW** cliriaist y tir iddi; magodd hithau wreiddiau a llenwi'r tir. Yr oedd ei chysgod yn gorchuddio'r mynyddoedd, a'i changau fel y cedrwydd cryfion; estynnodd ei brigau at y môr, a'i blagur at yr afon. Pam felly y bylchaist ei chloddiau, fel bod y rhai sy'n mynd heibio yn tynnu ei ffrwyth? Y mae baedd y goedwig yn ei thyrchu, ac anifeiliaid gwyllt yn ei phori. O Dduw'r Lluoedd, tro eto, edrych i lawr o'r nefoedd a gwêl, gofala am y winwydden hon, y planhigyn a blennaist â'th ddeheulaw, y gainc yr wyt yn ei chyfnerthu. Bydded i'r rhai sy'n ei llosgi â than ac yn ei thorri i lawr gael eu difetha gan gerydd dy wynepryd. Ond bydded dy law ar y sawl sydd ar dy ddeheulaw, ar yr un yr wyt ti'n ei gyfnerthu. Ni thrown oddi wrthyt mwyach; adfywia ni, ac fe alwn ar dy enw. **ARGLWYDD** Dduw y Lluoedd, adfer ni; bydded llewyrch dy wyneb annom, a gwareder ni' (Salm 80:8-19).

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Megan Williams ac am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Huw Pritchard. Mae'r Ysgol Sul yn cael gwyliau hanner tymor heddiw.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Mae'r Ysgol Sul yn cael gwyliau hanner tymor heddiw. Cynhelir oedfa am 2.00 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd. Rhwch wybod ar unwaith os gwelwch yn dda os oes aelod o un o eglwysi'r Ofalaeth yn yr ysbyty.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Arfona Edwards, 29 Maes y Garnedd, Bethesda o glywed am farwolaeth ei wŷr, Mathew, ym Manceinion ddydd Llun diwethaf. Anfonwn ein cofion at y teulu cyfan yn brofedigaeth lem hon.

## Cwrs Ieuentid

Gobeithio bod pawb sydd wedi mynd i'r Cwrs Ieuentid yng Ngholeg y Bala dros y Sul yn cael amser braf. Daw'r cwrs i ben amser cinio heddiw.

## Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch nos Fawrth, Tachwedd 7 am 7.00 o'r gloch. Bydd Mrs Pat Jones, Brynrefail yn dod atom i roi syniadau am

Grefftau'r Nadolig. Mae croeso cynnes i unrhyw un ddod i'r cyfarfod hwn.

## Bocsys Nadolig Pythefnos arall



Bydd cyfle eleni eto i anfon anrhegion mewn bocs esgidiau i blant anghenus mewn gwledydd tramor trwy'r elusen Teams4U.

Bydd angen i'r bocsys esgidiau fod yn barod ymhen pythefnos, erbyn nos Sul, Tachwedd 19.

Mae taflenni pwrpasol ar gael yn y capel, ac mae'r rhain yn nodi'r glir beth ellir ei roi yn y bocsys. Mae modd paratoi bocs i deulu yn ogystal ag i blentyn.

Gofynnir am rodd o £2.50 gyda phob bocs tuag at gost eu cludo i ben eu taith.

## Teams4U

Gan ein bod yn anfon y bocsys Nadolig trwy Teams4U eleni, mae'n werth rhoi ychydig o hanes yr elusen a'i gwaith.

Sefydlwyd Teams4U yn 2006 gan Dave Cooke, o ardal Wrecsam. Dyma'r gŵr a sefydlodd Ymgyrch Plentyn y Nadolig (Operation Christmas Child) yn 1990. O fewn rhai blynnyddoedd, roedd Ymgyrch Plentyn y Nadolig wedi dod yn rhan o'r elusen fwy Pwrs y Samariad (Samaritan's Purse). Mae apêl bocsys esgidiau Ymgyrch Plentyn y Nadolig yn parhau bob blwyddyn dan nawdd Pwrs y Samariad.

Ydych chi'n cofio beth ddigwyddodd mewn lle o'r enw Beslan yn Rwsia ym mis Medi 2004? Lladdwyd o leiaf 385 o bobl (yn cynnwys 186 o blant) yno gan wŷr arfog o Chechnya mewn gwarchae a barodd dri diwrnod.

Roedd Dave Cooke yn gweithio i Bwrs y Samariad ar y pryd, a chafodd ei anfon i Beslan i geisio helpu'r bobl yno wedi'r gyflafan. Y profiad hwnnw a barodd iddo fynd ati yn 2006 i sefydlu Teams4U er mwyn ceisio gwasanaethu pobl a phlant mewn mannau eraill a oedd yn wynebu gwahanol argyfyngau.

Yn naturiol, roedd yr hyn a welsai Dave Cooke yn Romania, ac amgylchiadau truenus y plant a'i symbylodd i sefydlu Ymgyrch Plentyn y Nadolig, yn golygu bod Teams4U yn awyddus i weithio yn y wlad honno. Erbyn hyn, mae'r elusen yn gweithio mewn gwledydd fel Wcrain, Uganda a Chambodia hefyd.

Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am waith Teams4U, chwiliwch am wefan yr elusen, **teams4u.com**